Mae cynllun noddi'r gyfraith, CyfNawdd, yn cynnig cyfle i fyfyrwyr fagu sgiliau ymarferol yn y maes, datblygu'r gallu i drin a thrafod y gyfraith yn ddwyieithog a derbyn nawdd o hyd at £1,500 am astudio o leiaf 20 credyd o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob blwyddyn gymwys.

Y prifysgolion sy'n rhan o'r cynllun yma yw Prifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd.

Sut i wneud cais

Dylai'r myfyrwyr lenwi'r ffurflen gais a'i dychwelyd erbyn Mawrth 4 2010. Os ydych am wybodaeth bellach cysylltwch gyda Lowri Bulman ar (029) 2087 0 695 neu l.bulman@mantais.ac.uk

Pwrpas y cynllun yw cynyddu'r niferoedd o arbenigwyr dwyieithog yn y maes cyfreithiol, hyrwyddo a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch yn y gyfraith a chynnig cyfleoedd gyrfaol i siaradwyr Cymraeg mewn meysydd cyfreithiol trwy ddarparu lleoliadau gwaith addas a pherthnasol.

"Mae'r Gymraeg yn bwysig ac yn berthnasol iawn. Er bod ein cleientiaid wedi'i lleoli ar draws y Deyrnas Unedig ac, yn gynyddol, ar draws Ewrop, mae'n bwysig ein bod yn adfer ac yn ymfalchïo yn ein Cymreictod. Ymhellach, mae'r Gymraeg yn cael ei chydnabod mwy mwy fel ased. O'r herwydd mae'r galluogi i gyfathrebu yn y Gymraeg yn un o'r ffactorau sy'n helpu gwahaniaethu Capital Law oddi wrth ei gystadleuwyr. Yng Nghymru mae'r sector gyhoeddus ac (yn fwy nag erioed o'r blaen) y sector breifat yn cynnig cyfle i weithredu'n Gymraeg a chredaf fod CynIlun CyfNawdd yn un cyffrous iawn."

Guto Llewelyn, Cyfreithiwr dan-hyfforddiant gyda chwmni Capital Law:

"Er nad yw fy rhieni yn siarad Cymraeg fe wnaethant fy anfon i ysgol uwchradd Gymraeg. Roedd yn bwysig iawn i fi felly i gario 'mlaen i ddefnyddio fy Nghymraeg yn y brifysgol. Trwy fynychu seminarau Cyfraith yn Gymraeg, dwi'n teimlo fy mod i'n cael mantais drwy astudio mewn grwpiau bach."

Laura Beaton, Prifysgol Abertawe